# CYNLLUN TAIR MLYNEDD CYNGOR GWYNEDD

## 1. Rhagarweiniad

Bydd y cyfnod nesaf sydd yn wynebu Cyngor Gwynedd yn un heriol iawn. Rydym yn wynebu cyfnod o newid enfawr tra bod adnoddau yn crebachu yn sylweddol o fewn y sector gyhoeddus ac o fewn Cyngor Gwynedd yn benodol.

Ar adeg fel hyn, mae cael uchelgais i wella yn anodd ond yn hanfodol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal a datblygu gwasanaethau o'r safon uchaf bosib er budd ein trigolion. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny, rhaid gwneud penderfyniadau anodd a dewis a blaenoriaethu gwaith yn ofalus.

Yn amlwg, rhaid edrych ymlaen wrth gynllunio a mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weledigaeth tymor hir Strategaeth Gymunedol y Sir, strategaeth tymor hwy y mae'r Cyngor wedi cytuno â'i brif bartneriaid i wella gwasanaethau a gwneud Gwynedd yn lle gwell i fyw. Mae nifer o'r materion y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt o fewn y cynllun hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y Strategaeth Gymunedol.

Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Gwella Blynyddol, ar sail asesiad risg o'r materion y mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt ond, o hyn allan, mae'r Cyngor am edrych ymlaen ymhellach. Wrth gwrs, nid yw'r cynllun hwn yn cyhoeddi pob dim y mae'r Cyngor yn eu hwynebu dros y tair mlynedd nesaf. Mae llawer mwy o gynlluniau wedi eu paratoi ac yn cael eu gweithredu ar lefelau gwasanaethau ac unedau unigol. Mae'r cynlluniau gwasanaeth oll ar gael ar safle gwe'r Cyngor, www.gwynedd.gov.uk . Yn y cynllun hwn y ceir sylw i'r prif faterion y mae angen rhoi sylw iddynt ar lefel uwch.

Diben y cynllun yw rhoi ffocws clir a chydlynol i waith y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf. Yn y ddogfen hon, rydym yn ymrwymo i nifer o bethau ar draws pedair amcan a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r sir a'i phobl.

Wrth gwrs, rhaid i ni wneud hynny mewn partneriaeth. Er mwyn gwireddu rhai o'r blaenoriaethau, rydym angen help y cyhoedd a'n partneriaid o bob sector. Wrth gyd-weithio a chanolbwyntio ein sylw ar y pethau gwirioneddol bwysig y medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl y Sir.

## 2. Nod a Gwerthoedd y Cyngor

Yn syml, nod y Cyngor yw "Gwella Gwynedd" ond, wrth weithio tuag ato, byddwn yn:-

- agored ac ymatebol – sicrhau bod y wybodaeth lawnaf ar gael a'n bod yn barod i wrando, ymateb a gweithredu yn ôl anghenion ein trigolion
- gynaladwy - hyrwyddo datblygiadau sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion
- gofalu – am ein staff, trwy fod yn gyflogwr teg, ein cwsmeriaid, a'n trethdalwyr, trwy geisio cynnig gwerth am arian
- gynhwysol a chydradd - hyrwyddo mynediad a cheisio symud rwystrau i fynediad at wasanaethau


- flaengar – yn barod i fentro ac arloesi er canfod dulliau i ymateb i anghenion yr ardal
- gweithio ar y cyd – mewn partneriaeth, yn fewnol a gydag asiantaethau allanol, er mwyn cael y gorau i'r gymuned
- dysgu – yn datblygu'n barhaus trwy herio positif a gonest a dysgu gan eraill

**4. Amcanion y Cyngor**

Dros y cyfnod o 2008/09 i 2010/11, bydd y Cyngor yn gweithio yn benodol tuag at bedair amcan er mwyn gwireddu ei nod.

Amcan 1 - Cymuned Gynaladwy
Amcan 2 - Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd
Amcan 3 - Tegwch a Chyfloedd i Bobl a Chymunedau Bregus
Amcan 4 – Ffocws ar Drigolion

Mae tair o'r amcanion hynny, gyda nifer fawr o weithgareddau oddi tanynt yn edrych allan ar wireddu yn y cymunedau gydag un amcan yn edrych yn fewnol ar alluogi'r Cyngor i gyflawni'r amcanion eraill. Darlunir hynny yn y diagram isod:-




Rhennir gweddill y ddogfen yn ddwy ran. Yn Rhan A o'r ddogfen, fe nodir y blaenoriaethau strategol o dan y pedwar amcan. O dan pob un o'r blaenoriaethau hyn, rydym yn amlinellu cyfres o bethau y mae'r Cyngor am wneud gan nodi beth yr ydym am ei gyflawni erbyn diwedd oes y cynllun. Yn ogystal, nodir rhai dangosyddion allweddol y bydd y Cyngor yn eu monitro'n ofalus i geisio sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion y sir.  Mae'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi eu nodi yn Atodiad 2 i'r cynllun.

Mae cynlluniau manwl a cherrig milltir addas wedi eu gosod ar bob un o'r blaenoriaethau hyn er mwyn sicrhau cynnydd tuag at y gwelliant a nodir yn y ddogfen erbyn diwedd oes y cynllun.

Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun hwn wedi bod yn drylwyr gyda mewnbwn o nifer o gyfeiriadau, gan gynnwys asesiad risg manwl ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru, materion sydd wedi codi o asesiadau risg a gwaith cynllunio timau ac unedau ar draws y Cyngor, ar bob lefel, a thrafodaethau ymysg swyddogion ac aelodau.

Prif ffocws y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf fydd gwireddu'r blaenoriaethau strategol y mae'r cynllun hwn yn cyfeirio atynt. Fel y nodwyd yn y gwerthoedd y cyfeiriwyd atynt eisoes, rydym am fod yn agored ac ymatebol. Byddwn yn monitro cynnydd yn unol â threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan weithio ar y cyd gydag archwilwyr allanol ac yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd gyda'r gwaith o dan y blaenoriaethau sydd yn cael eu nodi yn y cynllun.

Yn amlwg, rhaid wrth adnoddau i wireddu ymrwymiadau'r cynllun. Adlewyrchir y goblygiadau ariannol o gyflawni'r gwethrediadau a nodir o dan y blaenoriaethau strategol yng nghynllun ariannol tymor canolig y Cyngor sy'n ymddangos yn Rhan B y cynllun.

Rydym yn cymeradwyo'r cynllun hwn i'ch sylw.





Dyfed Wyn Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Harry Thomas
Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Am fanylion pellach am y cynllun, neu i gael copi o'r cynllun mewn braille, print bras, neu ar dap sain cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd. (01286 679324)

## Cynllun Tair Mlynedd – Rhan A – Amcanion a Blaenoriaethau Strategol

### Amcan 1 - Cymuned Gynaladwy

Mae newid yn y byd o'n cwmpas ac yn ein cymdeithas yn anorfod. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweld newidiadau mewn hinsawdd, ym mhatrwm y boblogaeth (gyda mwy o symud tu fewn a thu hwnt i'r sir), globaleiddio a newidiadau technolegol gyda chymdeithas yn mynd yn un 24/7.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaladwy yn amcan o'r pwys mwyaf. Rhaid i Wynedd fod yn hyfyw ac yn gynaladwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol am y blynyddoedd i ddod o ystyried y newidiadau a'r bygythiadau i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn newid. Mae newidiadau, rhai ohonynt yn anghyfforddus, yn anorfod a rhaid i ni feddiannu'r her a'r cyfleoedd sydd yn codi ohonynt er mwyn sicrhau ffyniant y sir i'r dyfodol ar gyfer ein plant a phobl ifainc

Mae'r Cyngor yn dymuno meithrin a datblygu cymuned sirol sy'n gynaladwy, yn economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yng ngwyneb y newid yn y byd o'n cwmpas. Dros y tair blynedd nesaf, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol a nodir isod er mwyn ceisio sicrhau:-

- Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir
- Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas
- Cymryd camau i wella cyfleon i blant a phobl ifanc
- Darparu math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur
- Denu pobl ifanc a theuluoedd yn ôl i'r Sir
- Parhau i warchod a hybu'r iaith Gymraeg
- Lleihau ôl-troed ecolegol y Sir
- Cefnogi ardaloedd gwledig

**Mater** – Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb i'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn, mae perygl y gwelwn gymunedau anghytbwys a gwan, gwasanaethau a sefydliadau anghynaladwy wedi eu gwasgaru'n rhy eang, di boblogi gwledig a gorbwyso ar y trefi

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Economi Gwynedd (hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir)** | 1. Creu'r amodau i ddatblygu Sectorau Twf trwy:<br><br>A) Sefydlu a datblygu Sectorau Gwerth Uchel (technoleg uwch, gwyddorau amgylcheddol; gwyddorau meddygol, eigioneg ac ynni ) | Byddwn wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu i'r Strategaeth Datblygu'r Gogledd-Orllewin fydd yn adnabod rhaglenni a ffrydiau gwaith i ddatblygu'r sectorau twf<br><br>Byddwn wedi dod i gytundeb ffurfiol â Phrifysgol Bangor gyda threfniadau cydweithio mewn lle i dynnu'r budd o'r Brifysgol i'r economi leol<br><br>Byddwn wedi tynnu busnesau o fewn sectorau tŵf at ei gilydd ar lefel y Gogledd-Orllewin fel sail iddynt gyd- gynllunio ar gyfer eu datblygiad tymor hir (Blwyddyn 1: eigioneg ac awyr agored)<br><br>Byddwn wedi darparu fframwaith newydd ar gyfer datblygu safleodd ac eiddo busnes, ac wedi paratoi cynlluniau isadeiledd gwedd 1 er mwyn ymateb i anghenion sectorau twf, gan gynnwys unedau gwaith, cyfleustodau a darpariaeth technoleg gwybodaeth<br><br>Byddwn wedi cytuno rhaglen i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r cyfleon gwaith sydd ar gael yn lleol o fewn y sectorau twf a'r sectorau gwerth uchel yn benodol | Byddwn wedi cyflawni targedau Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Datblygu'r Gogledd Orllewin ar gyfer Sir Gwynedd.<br><br>Bydd cynlluniau blaenoriaeth y cytundeb yn cael eu gweithredu<br><br>Erbyn 2010/11 byddwn wedi wedi rhoi sylw hefyd i glystyru busnesau o fewn y sectorau diwydiannau creadigol, gwyddorau amgylcheddol, meddygol a thechnoleg uwch<br><br>Erbyn 2011 byddwn wedi paratoi'r holl gynlluniau ar gyfer is-adeileddd safleoedd strategol, rhanbarthol a lleol<br><br>Erbyn 2011, byddwn wedi cynyddu'r nifer o bobl ifanc o Wynedd fydd yn cael eu cyflogi o fewn y sectorau twf |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Economi Gwynedd (parhad)** | B) Sectorau Arwyddocaol (Adeiladu, gofal, diwydiannau creadigol, twristiaeth, bwyd ac amaeth ac awyr agored) | Byddwn wedi cychwyn gweithredu cynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig a Chydgyfeiriant, i ddatblygu cynhyrchion a gweithgareddau economaidd newydd<br>Byddwn yn datblygu rhaglen sgiliau gyda darparwyr fydd yn ymateb i anghenion y sector Adeiladwaith gan roi sylw penodol i ofynion y diwydiant niwcliar a'r rhaglen adnewyddu Tai<br>Byddwn wedi ymateb i golli swyddi yn Atomfa Trawsfynydd a'r diwydiannau traddodiadol trwy gytuno Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd | Bydd pecyn o brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei gweithredu gyda mentrau economaidd gwledig newydd wedi eu sefydlu a'u datblygu o fewn y sectorau twf |
| | 2. Rhaglenni Ariannol Allanol | Byddwn wedi sefydlu trefn reolaethol newydd, mewn partneriaeth, er mwyn uchafu'r budd i Wynedd o gronfeydd allanol, gan roi sylw penodol i'r Gronfa Cydgyfeiriant<br>Byddwn yn dylanwadu er mwyn i'r cynlluniau ariannol mawr rhanbarthol roi sylw teg i Wynedd ac yn unol â'r adnabyddiaeth leol o anghenion y sir | Byddwn wedi targedu arian o Gronfeydd Cydgyfeiriant a Chynllun Datblygu Gwledig er mwyn gweithredu prosiectau blaenoriaeth Gwynedd |
| | 3. Datblygu'r defnydd o'r Rhyngrwyd | Byddwn wedi cyflwyno a gwthio'r achos i ledaenu "fibre-speed" i ganolfannau a safleoedd allweddol drwy'r sir | Yn ystod 2010, byddwn wedi sefydlu rôl yr ysgolion cymunedol fel canolfannau rhyngrwyd o fewn eu hardaloedd<br>Yn ystod 2009/10, byddwn wedi datblygu a gweithredu cynlluniau e-ddysgu, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg a sgilio trigolion a busnesau Gwynedd i uchafu'r budd economaidd a'r cyfleoedd addysgol o'r rhyngrwyd |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Cyflenwad Tai (galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas)** | 1. Dod ac eiddo gwag yn ôl i ddefnydd | Byddwn wedi sicrhau bod 20 o eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd, gan sicrhau gwelliant yn yr amgylchedd trwy ddod ag eiddo gwag ac eiddo masnachol yn ôl i ddefnydd | Byddwn wedi sicrhau bod 75 o eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd, gan sicrhau gwelliant yn yr amgylchedd trwy ddod ag eiddo gwag ac eiddo masnachol yn ôl i ddefnydd |
| | 2. Polisïau cynllunio sy'n creu cyfleon i ddarparu cyflenwad addas o dai | Bydd Cynllun Datblygu Unedol wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer Ardal Cynllunio Gwynedd<br><br>Byddwn wedi cymeradwyo Canllaw Cynllunio Atodol Diwygiedig | Byddwn wedi casglu a dadansoddi gwybodaeth am yr angen am dai er mwyn cael sail ffeithiol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol |
| | 3. Tai Fforddiadwy | Byddwn wedi sicrhau bod 20% o'r holl unedau tai newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn dai fforddiadwy, gan greu oddeutu 40 o dai fforddiadwy y flwyddyn | Byddwn wedi sicrhau bod 20% o'r holl unedau tai newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn dai fforddiadwy, gan greu oddeutu 120 o dai fforddiadwy yn y cyfnod |
| | 4. Prosiect Stoc Tai'r Cyngor | Byddwn wedi gwneud cynnig ffurfiol (trwy bleidlais) i denantiaid y sir i greu corff annibynnol i dderbyn cyfrifoldeb am y stoc tai a denu i mewn yr adnoddau angenrheidiol i wario ar y stoc | Bydd Cynllun Buddsoddi yn uchafu'r nifer o dai fydd yn cyrraedd y Safon Ansawdd o fewn yr adnoddau sydd ar gael |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc (cymryd camau i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar draws y sir)** | 1. Ad-drefnu Ysgolion Cynradd | Bydd y Cyngor yn sefydlu Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion y Sir i ystyried trefniadau ysgolion cynradd ar gyfer y dyfodol.<br><br>Byddwn yn cynnal cyfnod ymgynghori statudol ar y bwriad i gau dwy ysgol o fewn y Sir | Dros y tair mlynedd bydd prosesau ymgynghori, cynigion terfynol a gweithredu trefniant newydd ar y gweill<br><br>Bydd mesurau yn eu lle ac yn weithredol ar gyfer sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn gadarn oddi fewn i gynlluniau ad-drefnu ysgolion cynradd |
| | 2. Adolygu Addysg Uwchradd ac ôl-16 | Byddwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu agweddau o adroddiad Webb mewn perthynas â threfniadaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 | O 2009/2010 ymlaen bydd gwaith yn cychwyn i ystyried anghenion a chynaladwyedd ysgolion uwchradd y Sir |
| | 3. Gwella sgiliau sylfaenol | Byddwn wedi cynnal ymchwil trylwyr fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer darparu Cynllun Gweithredu i ymateb i ofynion sgiliau sylfaenol ymysg plant a phobl ifanc | Bydd Cynllun i ddatblygu sgiliau sylfaenol plant a phobl ifanc ymhellach wedi cael ei weithredu |
| | 4. Lles Plant a Phobl Ifanc | Byddwn wedi sefydlu Cynllun Plant a Phobl Ifanc aml asiantaethol gyda cynllun gweithredu clir yn ei le | Bydd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn weithredol ac yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau canlyniadau positif i blant a phobl ifanc y Sir |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau (darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur)** | 1. Ail-drefnu system comisiynu hyfforddiant a sgiliau (ar y cyd) | Byddwn wedi datblygu cynigion ar gyfer llunio trefn leol o gomisiynu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl 16 ar raddfa Gwynedd a Môn ar y cyd a phartneriaid allweddol, ac adnabod strwythur gweithredu fydd yn rhoi sylw i anghenion y farchnad lafur yng Ngwynedd | Yn ystod 2010/11, bydd y ddarpariaeth hyfforddiant leol yn cyd-fynd efo dyheadau pobl ifanc ac anghenion y farchnad lafur |
| | 2. Llwybrau Dysgu / Llwybrau Gyrfa | Byddwn yn cryfhau llwybrau dysgu galwedigaethol a dynodi llwybrau dysgu 14-19 ar gyfer sectorau penodol gan gynnwys adeiladwaith a gofal<br><br>Byddwn wedi cynllunio llwybrau dysgu a 'r llwybrau mentro fydd yn addas ar gyfer pob ystod gallu, yr ifainc sydd wedi eu dadrithio a'r economaidd anweithredol | Byddwn wedi cwblhau'r Ystol Fenter a sefydlu mentergarwch o fewn y cwricwlwm<br><br>Erbyn 2010/11 bydd yr ystod o ddewis cwricwlaidd yn ehangach er mwyn galluogi pobl ifanc i gael gwell mynediad i'r farchnad lafur |
| | 3. Gweithredu Strategaeth Sgiliau Gwynedd ac Ynys Môn | Bydd Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor a Gwynedd ar y Cyd, ynghyd â threfniadau rheolaethol ar gyfer gweithredu'r rhaglen waith | Byddwn wedi gweithredu'r Strategaeth Sgiliau yng Ngwynedd fydd yn ymateb i'r anghenion presennol ac yn gwneud y farchnad lafur yn fwy cystadleuol |
| | 4. Sgiliau Mentergarwch | Byddwn wedi datblygu gwedd newydd Llwyddo'n Lleol o dan Cydgyfeiriant a'r Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn datblygu ymhellach sgiliau mentergarwch pobl ifanc, gan sicrhau statws i Wynedd fel "Lle Da i Fentro"<br><br>Byddwn wedi adnabod pecynnau ariannol ar gyfer sefydlu Canolfan Alwedigaethol yn Ne Gwynedd | Bydd gwedd newydd Llwyddo'n Lleol wedi cael ei weithredu gyda mesurau i hyrwyddo mentergarwch ymysg pobl ifanc yn eu lle |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Pobl Ifainc a Theuluoedd (denu pobl ifanc a theuluoedd yn ôl i'r Sir)** | 1. Paratoi ar gyfer sefydlu gwasanaeth i alluogi pobl ifainc a theuluoedd i ddychwelyd i Wynedd | Byddwn wedi datblygu cynllun i adnabod a thargedu pobl ifanc o Wynedd sydd yn byw a gweithio tu allan i'r Sir er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o gyfleon, cyflogaeth a datblygu gyrfa yn yr ardal<br>Byddwn wedi sefydlu rhaglen waith o ymgyrchoedd a gweithgareddau eraill | Yn 2009/10, byddwn wedi gweithredu ymgyrchoedd a gweithgareddau eraill er mwyn denu pobl ifanc a theuluoedd yn ôl i Wynedd |
| **Yr Iaith Gymraeg (parhau i warchod a hybu'r iaith Gymraeg)** | 1. Cymhathu Mewnfudwyr | Byddwn wedi paratoi cynllun cymhathu mewnfudwyr wedi ei seilio ar brosiectau arfer dda ac i'w gweithredu o 2009 ymlaen | Rhwng 2009 a 2010, byddwn wedi gweithredu cynllun cymhathu mewnfudwyr |
| | 2. Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Rhaglen Waith Menter Iaith Gwynedd | Byddwn wedi adeiladu ar Arolwg Iaith gan lunio Cynllun Gweithredu Strategaeth Iaith Sir Gwynedd a pharatoi rhaglen waith ar gyfer tair mlynedd | |
| | 3. Sefydlu Siarter Iaith i Wynedd | Byddwn wedi sefydlu Siarter Iaith i Wynedd mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill y Sir | Bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwynedd yn dilyn egwyddorion a pholisïau yn y Siarter Iaith a bydd trefniadau monitro perfformiad yn eu lle |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Newid Hinsawdd (datblygu cynlluniau i ymateb i a lleihau effaith Newid Hinsawdd)** | 1. Cynllun Peilot Rheoli Risg Llifogydd | Byddwn wedi cynnal adolygiad yn ardal Pwllheli ar y cyd a phartneriaid i adnabod camau fydd angen eu cymryd i leihau ar effaith llifogydd fydd yn cynyddu oherwydd newid hinsawdd.<br>Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a gesglir i sefydlu teclyn asesu effaith<br>Byddwn wedi cyflawni yn 2008/09:<br>1. Paratoi Cynllun Ymgynghori<br>2. Cyflwyno papur Economaidd Gymdeithasol fydd yn edrych ar effaith newid hinsawdd<br>3. Cyflwyno papur ar godi ymwybyddiaeth cymunedau | Bydd Cynllun Strategaeth derfynol yn ei le ynghyd â phecyn terfynol Astudiaeth Ymarfer Da Peilot.<br>Bydd yr wybodaeth hyn yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisïau strategol i ymateb i fygythiadau newid hinsawdd ar hyd arfordir Gwynedd. |
| | 2. Lleihau a Rheoli Gwastraff | Byddwn wedi sefydlu trefniadau arbennig drwy Wynedd ar gyfer casglu gwastraff cegin a gardd, gyda’r gwastraff hwnnw yn cael ei gompostio mewn dau safle pwrpasol | Byddwn wedi cwblhau gwaith ar y rhwydwaith o ganolfannau ailgylchu gwastraff tŷ, gyda dau safle newydd yn weithredol yn 2009/10, ac un arall yn weithredol yn 2010/11 |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| | 3. Cynllun Lleihau Carbon | Byddwn yn arwain drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, waith gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd i adnabod effaith ar gynhyrchu carbon gan y meysydd ynni a gwastraff<br>Byddwn wedi cyflawni yn 2008/09:<br>1. Sefydlu gwaelodlin o safbwynt allyriant o CO² ym meysydd ynni a gwastraff.<br>2. Datblygu strategaeth ar gyfer lleihau Ôl Troed Carbon maes ynni a gwastraff | Erbyn 2010/11 byddwn wedi cyflawni:<br>1. 10% o leihad mewn allyriant o CO² yn deillio a ddefnydd o ynni yn adeiladau annomestig y Cyngor<br>2. Sefydlu gwaelodlin o safbwynt allyriant o CO² ym maes trafnidiaeth ac o ganlyniad i drefniadau caffael<br>3. Datblygu strategaeth i leihau Ôl Troed Carbon ym maes trafnidiaeth a chaffael<br>4. Rhaglen waith ymarferol wedi ei mabwysiadu er mwyn gwireddu'r strategaethau i leihau carbon sy'n deillio o'r meysydd ynni, gwastraff, trafnidiaeth a chaffael<br>5. Dechrau cydweithio ar leihau carbon gyda chyrff yn y sector busnes a gwirfoddol. |
| | 4. Newid Hinsawdd – Newid Lleoedd | Byddwn wedi gweithredu prosiect peilot i wella cynllunio strategol a gwasanaethau trwy baratoi darlun manwl o effeithiau tebygol newid hinsawdd yn lleol ac edrych ar sut y gellir ymateb ac addasu i'r effeithiau hyn<br>Byddwn wedi cyflawni yn 2008/09:<br>1. Sefydlu Gweithgor Corfforaethol ar gyfer y prosiect i gynnwys cynrychiolaeth o Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>2. Sesiynau hyfforddiant ar newid hinsawdd ac addasu i'w sgil effeithiau wedi eu cynnal ar gyfer aelodau a swyddogion allweddol | Erbyn 2010/11 byddwn wedi cyflawni:<br>1. Dadansoddi data perthnasol a'i oblygiadau i ddarparu gwasanaethau a strategaethau<br>2. Cwblhau proffil effaith hinsawdd lleol<br>3. Dechrau gweithio gyda gwasanaethau i adnabod sut y bydd angen ymateb i'r newid mewn hinsawdd, a'r sialensiau fydd yn dilyn o hynny<br>4. Codi ymwybyddiaeth cymunedau lleol o effeithiau tebygol newid hinsawdd a'r angen i addasu.<br>5. Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd mewn lle |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Dyfodol i'r Ardaloedd Gwledig (cefnogi Ardaloedd Gwledig yn sgil y newidiadau yn y byd o'n cwmpas)** | 1. Dylanwadu (Arwain yr Agenda Wledig) | Byddwn yn hybu'r achos am dreth ychwanegol ar ail gartrefi | Drwy gydol oes y Cynllun, byddwn yn lobio Lywodraeth Cymru o ran y setliadau ariannol, dyraniadau adnoddau a fformiwlâu perthnasol, yn benodol yn y meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol |
| | | Byddwn yn hybu mwy o ymchwil i natur ac effaith amddifadedd gwledig | Dros oes y cynllun, byddwn yn pwyso am well eiriolaeth dros faterion gwledig, e.e. Comisiwn neu Gomisiynydd ar Faterion Gwledig fel sydd yn Lloegr |
| | | Byddwn yn arwain a dylanwadu ar y broses Cynllun Gofodol gan sicrhau bod Strategaeth Datblygu Gogledd-Orllewin Cymru yn gweithredu i wasgaru twf ar draws y Sir | Byddwn wedi cyrraedd targedau'r Strategaeth Gogledd Orllewin ar gyfer gwasgaru twf economaidd i ddalgylchoedd Gwynedd |
| | 2. Agwedd Holistaidd i Weithgareddau Gwledig | Byddwn wedi enwebu cynghorydd i fod yn bencampwr ar faterion gwledig | |
| | | Byddwn wedi sefydlu swydd Swyddog Materion Gwledig i gefnogi agwedd mwy holistaidd at weithgareddau gwledig | |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| | 3. Hybu Cryfder yr Ardaloedd Gwledig | Byddwn wedi cychwyn gweithredu cynlluniau trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a Chyd-gyfeiriant i adeiladu ar sectorau traddodiadol a thwf, datblygu cynhyrchion a gweithgareddau economaidd newydd yn yr ardaloedd gwledig<br><br>Byddwn wedi darparu Cynlluniau Ardal y Strategaeth Adfywio ar gyfer ardaloedd Llŷn a Meirionnydd<br><br>Byddwn wedi paratoi achos busnes i asesu'r posibilrwydd o ail leoli swyddi sector gyhoeddus tu allan i ardal y Fenai<br><br>Byddwn wedi adnabod effaith rhaglen newid rhwydwaith y Swyddfa Bost ar Wynedd, ac wedi dod i gasgliad ar pa gamau y gellid eu cymryd gan y Cyngor er mwyn sicrhau gwasanaeth priodol i amgylchiadau'r sir | Erbyn 2010, bydd prosiectau economaidd wedi cael eu hariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a Chyd Gyfeiriant ac yn cael eu gweithredu yn yr ardaloedd gwledig<br><br>Byddwn wedi darparu cynlluniau ardal ar gyfer pob un o 8 Ardal Gwynedd a bydd prosesau ar waith i weithredu prosiectau oddi fewn i'r Cynlluniau Ardal |
| | 4. Polisi Tai Haf | Byddwn yn sefydlu rhaglen casglu data ac ymchwil i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gosod cyd-destun i adolygu polisïau lleol a chenedlaethol ar dai haf. | Byddwn wedi cyflwyno tystiolaeth i adolygu polisïau cenedlaethol i Lywodraeth Cymru a bydd y sylfaen dystiolaeth wedi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Iechyd (hyrwyddo ffitrwydd, iechyd a'r maes awyr agored)** | 1. Hyrwyddo datblygiadau yn y maes awyr agored | Byddwn wedi sefydlu trefniadau partneriaeth ar lefel strategol ar gyfer hyrwyddo a chyd gynllunio holl elfennau'r maes awyr agored | Byddwn wedi rhoi cynllun datblygu yn ei le i uchafu budd y sector awyr agored i'r economi leol a datblygu llwybrau dysgu cyffrous i bobl ifanc yn y maes |
| | 2. Hyrwyddo'r agenda iechyd, maeth a ffitrwydd oddi fewn i ysgolion Gwynedd | Byddwn wedi cynllunio a chreu rhaglen gydlynus ar gyfer hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a maeth oddi fewn i ysgolion Gwynedd | |
| | 3. Gweithredu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Cyngor | Byddwn wedi gweithredu rhan gychwynnol o raglen waith y Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, gan gynnwys sicrhau strwythurau addas a hyblyg ar gyfer cyrraedd y dyheadau | Gweithredu camau pellach Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Cyngor |
| | 4. Cynllun Bwydlenni Iach i Ysgolion | Byddwn wedi ymestyn y ddarpariaeth o fwydlenni iach i'r holl ysgolion cynradd drwy'r sir | Bydd cefnogaeth wedi ei roi ymhob ysgol i gefnogi'r agenda bwyd a maeth ac i sicrhau ymateb ysgol gyfan i'r agenda bwyd a maeth |
| | 5. Lleihau Ysmygu | Byddwn wedi sicrhau lleihad o 1% yn y nifer o oedolion sydd yn adrodd eu bod yn ysmygwyr yn Arolwg Iechyd Cymru | Byddwn wedi parhau i leihau'r nifer o oedolion sydd yn adrodd eu bod yn ysmygwyr (o 1% y flwyddyn), lleihad yn y nifer o ferched beichiog sydd yn ysmygu a chynnydd yn y nifer o bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. |

**Dangosyddion :**

| Dangosydd | Targed 2008/09 | Targed 2010/11 |
|---|---|---|
| Y nifer o dai cyngor lle mae gwelliant wedi ei wneud i symud tuag at Safon Tai Cymru 2012 | 605 | 1880 |
| Canran graddau 5 A* - G TGAU neu gyfatebol | 91% | 92% |
| Canran y disgyblion 16 oed sy'n ennill y Dangosydd Pwnc Craidd | 46% | 47% |
| Canran y disgyblion sydd wedi eu hasesu ar Lefel 3 cadarn yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n dilyn rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 7 | 95% | 97% |
| Nifer defnyddwyr pyllau nofio a chanolfannau hamdden | 12,080 | I'w osod |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd a chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd | 20% | 20% |
| Nifer pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth trwy'r Cyngor ar gyfer sefydlu busnes | 40 | 120 |
| Canran o unedau diwydiannol y Cyngor sy'n llawn | 90% | 90% |
| Nifer y teuluoedd digartref wedi eu lleoli mewn llety dros-dro am fwy na 6 mis gan yr Awdurdod | | |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio | 19% | 23% |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall | 17% | 22% |
| Canran o wastraff dinesig pydredig a gaiff ei dirlenwi | 61% | 51% |
| Canran o leihad mewn allyriant $CO^2$ o'r defnydd o eiddo yn adeiladau annomestig y Cyngor | Gosod gwaelodlin | 10% |
| Lleihad yn y ganran o oedolion sydd yn adrodd eu bod yn ysmygwyr | 1% y flwyddyn | 1% y flwyddyn |

**Amcan 2 – Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd**

Mae adnoddau cyhoeddus yn crebachu a'n hasedau yn heneiddio. Ar yr un pryd, mae disgwyliadau'r cyhoedd am safon gwasanaethau yn cynyddu ar adeg pan mae llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau. Ar ben hynny, mae'r meysydd yr ydym yn gwasanaethu ynddynt yn fwy cymhleth i staff ddygymod â hwy ond, hefyd, mae cyfleon i wella hefyd gan bod dulliau gweithredu newydd ar gael.

Er mwyn medru goroesi a datblygu'r gwasanaethau gorau ar yr adeg hyn, rhaid sicrhau bod y Cyngor ei hun yn y cyflwr gorau posib, o ran ei drefniadau a'i adnoddau, i fedru cyfrannu'n effeithiol at wella'r sir.

Mae'r Cyngor yn dymuno bod yn gorff sydd yn newid er mwyn cyflawni ei botensial i gyfrannu at at wella Gwynedd. Dros y tair mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol a nodir isod er mwyn ceisio

- Canfod arbedion ariannol sylweddol
- Gwneud defnydd effeithiol o'n hasedau ac o dechnoleg a phrosesau busnes llyfn
- Gwella cyd-weithio mewnol ac allanol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus
- Cynnig blaenoriaethau clir
- Datblygu a grymuso arweinwyr a staff i'w galluogi i weithio'n effeithiol
- Ail-gyfeirio adnoddau
- Adolygu asedau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas

**Mater** – Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth yn y maes hwn, byddwn yn methu â chynnal gwasanaethau drudfawr a byddwn yn ceisio cynnal gwasanaethau mewn adeiladau sydd ddim yn addas i bwrpas; byddai gennym lai o arbedion effeithlonrwydd a risg gwirioneddol ein bod yn torri'r pethau anghywir. Mae peryg na fyddem wedi rhyddhau potensial staff a heb wella'r sefydliad a felly na allai'r Cyngor ymateb yn effeithiol i'r her y mae'n ei wynebu. Adnodd mwyaf gwerthfawr y Cyngor yw ei weithlu ac, oni bai ein bod yn medru manteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwnnw, mae peryg ein bod yn colli cyfle i uchafu'r gwasanaeth i drigolion y sir

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Prosesau a Systemau (sicrhau systemau a phrosesau addas a chyfoes)** | 1. Trawsnewid Busnes | Byddwn wedi sefydlu capasiti ac adolygu capasiti yr adnodd trawsnewid busnes i ail ddylunio eu prosesau mewn o leiaf pump o feysydd | Bydd yr Uned Trawsnewid Busnes wedi cynorthwyo i foderneiddio prosesau gwaith mewn o leiaf 15 o feysydd |
| | 2. System Adnoddau Dynol | Byddwn wedi penderfynu ar system gyfrifiadurol adnoddau dynol | Bydd system adnoddau dynol a chyflogau integredig yn ei le |
| **Pobl a Diwylliant (gwell rheoli, gwerthfawrogi â chysylltu gyda gweithwyr mewn fframwaith clir a diwylliant "Un Cyngor" positif** | 1. System Cynllunio Gweithlu Corfforaethol | Byddwn wedi sefydlu fframwaith cynllunio gweithlu drafft ar gyfer y Cyngor ac wedi ei brofi mewn un gwasanaeth o fewn y Cyngor | Erbyn 2010/11, byddwn wedi integreiddio cynllunio gweithlu yn llwyr i'n fframwaith gynllunio busnes |
| | 2. Strategaeth Pobl | Byddwn wedi cytuno ar strwythur tâl newydd ar gyfer gweithwyr y Cyngor a'i weithredu<br><br>Byddwn wedi datblygu fframwaith cyfathrebu mewnol effeithiol a dechrau ei weithredu<br><br>Byddwn wedi cynnal arolwg staff er mwyn sicrhau mewnbwn staff i'r hyn sydd angen ei wneud i wella'r Cyngor<br><br>Byddwn wedi cwblhau peilot ar gyfer gweithio'n hyblyg fel rhan o raglen cyd-bwysedd bywyd a gwaith y Cyngor | Yn ystod 2009/10, byddwn wedi adolygu effeithlonrwydd y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer rheoli salwch gan sefydlu pa raglenni pellach y gellir eu mewnosod<br><br>Os yw'r peilot yn llwyddiannus, byddwn wedi ymestyn y rhaglen fel bod o leiaf 25% o staff a leolir mewn swyddfeydd wedi cael eu hystyried ar gyfer y trefniadau arfaethedig |

| **Blaenoriaethau Strategol** | **Beth rydym am ei wneud** | **Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09** | **Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Pobl a Diwylliant (parhad)** | 3. Perfformiad | Byddwn wedi cynnal asesiad o fewnbwn staff i gynllunio busnes er mwyn symud i ddiwylliant perfformiad positif | Byddwn wedi gwella'r meddylfryd am reoli perfformiad ar bob haen o fewn y Cyngor<br><br>Byddwn wedi gweithredu rhaglen gytun gyda Swyddfa Archwilio Cymru i wella trefniadau casglu, cyfrifo ac adrodd ar wybodaeth perfformiad o fewn y Cyngor<br><br>Byddwn wedi asesu a chyflwyno System Rheoli Perfformiad Ffynnon ar draws y Cyngor er mwyn cefnogi rheolwyr i gael mynediad hwylus at wybodaeth amserol i reoli perfformiad yn effeithiol |
| | 4. Newid Diwylliant y Cyngor | Byddwn wedi sefydlu trefn a diwylliant ar gyfer cydnabod a dathlu llwyddiant<br><br>Byddwn wedi datblygu cynllun gweithredu i wella mentro, cymryd risgiau ystyrlon a dysgu parhaus o fewn y Cyngor<br><br>Byddwn wedi datblygu fframwaith i annog gweithio mewn timau<br><br>Byddwn wedi sefydlu ffyrdd o wella “Diwylliant Un Cyngor” | |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth a Gweledigaeth (datblygu'r Cyngor fel ei fod yn cael ei arwain yn well)** | 1. Rhaglen Datblygu Arweinwyr | Byddwn wedi sefydlu a sicrhau adnoddau ar gyfer rhaglen tair mlynedd i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr y Cyngor<br><br>Byddwn wedi cwblhau 15% o'r rhaglen tair mlynedd<br><br>Byddwn wedi sefydlu system werthuso newydd ar gyfer uwch reolwyr | Byddwn wedi gwerthuso llwyddiant y rhaglen datblygu arweinwyr<br><br>Byddwn wedi cyflawni 80% o'r rhaglen tair mlynedd |
| | 2. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Gwleidyddol | Byddwn wedi sefydlu rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer arweinyddion gwleidyddol y Cyngor | |
| | 3. Datblygu Ffocws Strategol | Byddwn wedi datblygu rolau y cyfarwyddwyr strategol a'r penaethiaid gwasanaeth ac wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i uchafu capasiti strategol | |
| | 4. Datblygu arweinwyr y dyfodol | Byddwn wedi adolygu ein rhaglen hyfforddeion graddedig | Byddwn wedi sefydlu fframwaith ar gyfer adnabod a meithrin arweinwyr y dyfodol ymysg rheolwyr y Cyngor |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Y Defnydd o Adnoddau (sicrhau gwerth am arian, sylfaen asedau cynaladwy a chysylltu adnoddau â blaenoriaethau)** | 1. Strategaeth Ariannol | Byddwn wedi llunio Strategaeth Ariannol tymor canolig i gynnig sefydlogrwydd cyllidol i'r Cyngor | Byddwn wedi canfod £5.7m o arbedion effeithlonrwydd<br><br>Byddwn wedi llunio strategaeth ariannol tair mlynedd ar gyfer y cyfnod 2011/12 – 2013/14 |
| | 2. Rhaglen Arbedion ac Effeithlonrwydd | Byddwn wedi adnabod cynlluniau y gellir eu gweithredu er mwyn canfod £3.5m o arbedion | Byddwn wedi adnabod cynlluniau y gellir eu gweithredu er mwyn canfod £4m o arbedion yn 2009/10 ac wedi sefydlu targed pellach ar gyfer 2010/11 |
| | | Byddwn wedi cyflwyno strategaeth e-gaffael ac yn rhesymoli trefniadau caffael a chanfod arbedion effeithlonrwydd ariannol ac anariannol dros y tair mlynedd nesaf<br><br>Byddwn wedi blaenoriaethu meysydd gwariant ar gyfer sylw caffael penodol er mwyn gwella caffael a chanfod arbedion pellach | Dros oes y cynllun, byddwn wedi cefnogi cyfres o brosiectau arbedion effeithlonrwydd corfforaethol i leihau'r pwysau ariannol ar y gwasanaethau uniongyrchol |
| | | Byddwn wedi sefydlu partneriaeth i weithredu cytundebau fframwaith ar gyfer y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru er mwyn ennill arbedion drwy brynu ar y cyd | Bydd y bartneriaeth yn cyflawni arbedion o £164,000 ar gyfer y Cyngor |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Y Defnydd o Adnoddau (parhad)** | 3. Asedau'r Cyngor | Byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer y Cyngor a gweithredu ar y cynllun hwnnw | Byddwn wedi lleihau ol-troed y swyddfeydd a ddefnyddir gan y Cyngor o 450m²<br><br>Byddwn wedi lleihau ôl-troed adeiladau'r Cyngor o 10,000m²<br><br>Byddwn wedi sicrhau fd 85% o adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr "Da" neu "Dderbyniol" |
| | 4. Gwybodaeth a Data | Byddwn wedi sefydlu strategaeth ar gyfer defnydd mwy effeithiol o'r fffynonellau gwybodaeth sydd gennym gan gynnwys system rheoli gwybodaeth<br><br>Byddwn wedi mabwysiadu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'r adnodd sydd ar gael | |

**Dangosyddion** –

| **Dangosydd** | **Targed 2008/09** | **Targed 2010/11** |
|---|---|---|
| Lefel cynnydd yn y Dreth Cyngor | Amrywiant o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru | Amrywiant o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru |
| Y swm ariannol y llwyddwyd i'w ddenu trwy wneud cynnydd derbyniol yn erbyn cerrig milltir y Cytundeb Gwelliant | £1.3m | £1.3m |
| Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | Gwario o fewn y gyllideb neu ddim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn | Gwario o fewn y gyllideb neu ddim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn |
| Cyfanswm y cynlluniau arbedion y gellir eu gwireddu | £3.5m | £12m |
| Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd wedi eu canfod | | £5.7m |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun 3 Mlynedd, y canran sydd wedi cwrdd â'r targed | 70-75% | 70-75% |
| Canran o ddangosyddion perfformiad allweddol y cerdyn cytbwys yn y Cynllun 3 Mlynedd y mae'r Cyngor wedi adrodd arnynt yn gywir, | Gwaelodlin i'w sefydlu | I'w sefydlu |
| Canran y gwelliannau i ymateb i flaenoriaethau strategol yn y Cynllun 3 Mlynedd sydd wedi cyflawni deilliant y flwyddyn | 75-80% | 75-80% |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun 3 Mlynedd, y canran sydd wedi gwella neu wedi cynnal perfformiad | 70 - 75% | 70 – 75% |

**Dangosyddion (parhad) –**

| Dangosydd | Targed 2008/09 | Targed 2010/11 |
|---|---|---|
| Nifer rheolwyr sydd wedi ennill cymhwyster Arwain a Rheoli ILM | 40 | 180 |
| Canran yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn isafswm o 6 awr o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn | 90% | 80% |
| Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff | 9.8 | 9.2 |
| Lleihad yn ol-troed adeiladau’r Cyngor | | 10,000m$^2$ |
| Canran o adeiladau’r Cyngor sydd yn y Categori Cyflwr “Da” neu “Dderbyniol | | 85% |

**Amcan 3 – Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus**

Mae’r newid mewn cymdeithas a’r byd o’n cwmpas, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn debygol o gael fwy o effaith ar rai nag eraill. Gallai olygu mwy o bolareiddio cymdeithasol a chynnydd mewn anghydraddoldebau o fewn y sir. Oherwydd natur cymdeithas, a’r tueddiad hynny, bydd crebachu adnoddau yn fwy o fygythiad i rai carfannau mewn cymdeithas a thueddiadau demograffig a chymdeithasol yn debygol o gael fwy o effaith ar rai pobl a chymunedau. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd ar gael i ymgymryd â gwaith ataliol.

Mae’r Cyngor yn dymuno sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl a chymunedau ar draws y Sir gan sicrhau bod gan y cymunedau ac unigolion mwyaf bregus y cyfleon i fyw bywyd llawn mewn cymunedau llewyrchus**.** Dros y tair mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â’r blaenoriaethau gweithredol a nodir isod er mwyn

- Cynnig tegwch a chyfleoedd i bobl a chymunedau anghennus
- Ceisio symud rhwystrau i rhyddhau potensial ar draws y sir, yn arbennig ymysg plant a phobl ifainc
- Ceisio sefydlu’r ffordd orau i dorri’r cylch amddifadedd (sydd yn dylanwadu ar bob rhan o fywyd a chymdeithas)
- Ceisio lleihau dibyniaeth unigolion o fewn eu cymunedau
- Targedu cynlluniau adfywio

**Mater** – Disgrifiad o’r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth, gellir rhagweld mwy o ddibyniaeth ymysg pobl y sir a iechyd a ffitrwydd yn gwaethygu mewn ardaloedd o angen. Mae hyn yn golygu nad yw potensial carfan arwyddocaol o’r boblogaeth yn cael ei wireddu.

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc Bregus (ymateb i anghenion y plant a phobl ifainc mwyaf bregus)** | 1. Cynllun Tlodi Plant | Fel rhan o gynllun peilot cenedlaethol tair mlynedd, byddwn wedi cynnal ymgynghoriad gyda plant a phobl ifainc a'u teuluoedd ar eu profiadau o dlodi ac wedi adnabod mesurau i ymateb i'r profiadau hynny | Ar diwedd cyfnod y cynllun peilot, bydd cynllun gweithredu lleol yn ei le, a byddwn wedi lledaenu negesuon o'r peilot i weddill Cymru |
| | 2. Plant a phobl ifanc mewn gofal | Byddwn wedi sefydlu trefn ar gyfer cynllunio dyfodol plant a phobl ifanc mewn gofal gan adnabod yn glir y llwybrau cyfle<br><br>Byddwn wedi llunio strategaeth ymyrraeth gynnar i rai sydd ar fin mynd i ofal | Erbyn 2011, bydd 95 % o blant mewn gofal â chynllun yn nodi llwybr cyfle ar eu cyfer |
| | 3. Gofalwyr Ifanc | Byddwn wedi cynnal arolwg i gael gwell darlun o'r sefyllfa ar draws y sir a chytuno ar gynllun penodol ar gyfer eu cefnogi | Byddwn wedi gweithredu cynlluniau i geisio ymateb i'r anghenion sydd yn cael eu hadnabod |
| | 4. Gweithio Aml-ddisgyblaethol | Byddwn wedi sefydlu tîm ar y cyd o sawl asiantaeth yn ardal Eifionydd i dreialu cydweithio o gwmpas anghenion plant<br><br>Byddwn wedi sefydlu bâs-data o'r gweithwyr ym mhob asiantaeth sydd yn y maes plant er mwyn sicrhau bod ganddynt i gyd isafswm o wybodaeth allweddol a threfniadau cyfathrebu clir | Byddwn wedi ymestyn trefniadau gweithredu aml ddisgyblaethol i dair ardal arall o'r Sir |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethu Cymunedau o Angen**<br><br>**(rhoi sylw penodol a chyfeirio adnoddau i gymunedau o angen)** | 1. Dadansoddi sut mae torri'r cylch amddifadedd | Byddwn wedi cwblhau dadansoddiad o brosiectau a rhaglenni blaenorol a chrynhoi gwersi i ddylanwadu ar gynlluniau'r dyfodol | Byddwn wedi adnabod y meysydd allweddol ar gyfer ymyrraeth a datblygu cynigion gweithredu effeithiol |
| | 2. Gwyro ymyrraeth i gymunedau o angen | Byddwn wedi cyflwyno ymyrraethau allweddol wyth ardal Adfywio Gwynedd gan ganolbwyntio yn arbennig ar y cymunedau o angen<br><br>Byddwn wedi adnabod a thracio gwariant y Cyngor yn y cymunedau o angen, fel sail i wyro rhaglenni a chynlluniau ymyrraeth o 2010 ymlaen | |
| | 3. Integreiddio gwasanaethau yn fwy effeithiol | Byddwn wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i sicrhau trosolwg o faterion amddifadedd er mwyn hyrwyddo cyd-gynllunio yn y cymunedau o angen | Byddwn wedi sefydlu ac yn gweithredu trefn o gyd-gynllunio aml-asiantaethol ar gyfer cymunedau o angen |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Oedolion Bregus)** | 1. Gwasanaethau preswyl i bobl hŷn | Bydd gwaith wedi cychwyn ar ddwy safle tai gofal ychwanegol | Bydd 130 - 150 o unedau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn wedi eu datblygu neu ar y gweill ar draws y sir erbyn 2011 |
| **(oedolion a'u gofalwyr yn derbyn gwasanaethau addas i'w anghenion gan sicrhau parch ac urddas** | 2. Gwasanaethau i rai â dementia | Byddwn wedi cychwyn darpariaeth ar gyfer gofal i'r henoed dryslyd ar ddwy safle o fewn y sir<br><br>Byddwn wedi adnabod ymarfer da/arloesol drwy gydweithio gyda'r Uned Dementia ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, a datblygu ymarfer lleol yn sgil hynny | Yn ystod 2009/10, byddwn yn cwblhau'r ddarpariaeth ar gyfer gofal i'r henoed dryslyd ar ddwy safle yn ei le<br><br>Byddwn wedi ail-ddylunio gwasanaethau cefnogol a phreswyl ar y cyd ag Iechyd a'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau darpariaeth addas all hyrwyddo annibyniaeth pobl cyhyd ag y dymunant ac mae amgylchiadau yn caniatáu |
| | 3. Gofalwyr – anghenion gofalwyr yn cael eu hadnabod, eu hystyried a'u diwallu yn gyson ar draws y gwasanaethau | Byddwn yn gweithredu prif amcanion y Strategaeth Gofalwyr gan gynyddu'r nifer o ofalwyr fydd yn derbyn asesiad a gwasanaethau | Bydd cynllun gwaith y Strategaeth yn cael ei gyflawni a'r Strategaeth Gofalwyr yn cael ei harfer |
| | 4. Anabledd Dysgu – Llety Addas i fyw | Byddwn wedi ail ddylunio cyfleon dydd i ddefnyddwyr Arfon<br><br>Byddwn wedi sefydlu trefniadau cynllunio integredig person-ganolog | Byddwn wedi ymestyn trefniadau cyfleon dydd ar draws Gwynedd<br><br>Byddwn wedi ail ddylunio gwasanaethau hosteli a llety |
| | 5. Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn | Byddwn wedi sicrhau gwelliant yn ein sgôr perfformiad cyfartalog ar draws holl safonau'r Fframwaith Gwasanaeth a llunio rhaglen waith bwrpasol er mwyn gwella a monitro cynnydd ym mhob un o'r deg safon. | Byddwn yn gweithredu gofynion y Fframwaith Gwasanaeth yn llawn. |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Chyfleon (darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur)** | 1. Targedu'r Economaidd Anweithredol | Byddwn wedi sefydlu rhaglen o weithgareddau i ymateb i'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag mynediad i fyd gwaith, gan gysylltu pobl gyda chyfleon economaidd newydd, a chynnwys y cymunedau o angen<br><br>Byddwn wedi gwreiddio'r model peilot ar gyfer priodi'r cyfleon swyddi a ddaw o ddatblygiadau manwerthu gyda'r ddarpariaeth sgiliau, gan dargedu'r economaidd anweithredol a'r cymunedau o angen<br><br>Byddwn wedi sefydlu ail wedd Cynllun Genesis i gefnogi'r teuluoedd mwyaf bregus o fewn y sir a'u cynorthwyo yn ôl i waith | Erbyn 2010/11 byddwn wedi gweithredu mesurau i leihau'r economaidd anweithredol |

**Dangosyddion** –

| **Dangosydd** | **Targed 2008/09** | **Targed 2010/11** |
|---|---|---|
| Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal brosesu cais budd-dal neu newid amgylchiadau (dyddiau) | 14 | 13 |
| Canran o'r asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn unol â'r Fframwaith Asesu – Gwasanaeth Arbenigol Plant | 60% | 60% |
| Canran y lleoliadau cyntaf (i blant sy'n derbyn gofal) sy'n dechrau gyda chynllun gofal clir yn ei le | 90% | 90% |
| Canran y gofalwyr ifanc y mae'r gwasanaeth cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt gafodd eu hasesu | 80% | 80% |
| Canran o blant gafodd eu penblwydd yn 16 gyda cynllun llwybr bywyd | 100% | 100% |
| Nifer o leoliadau maeth newydd yn ystod y cyfnod | 20 | 60 |
| Canran o blant mewn gofal â chynllyn yn nodi llwybr cyfle ar eu cyfer | Trefn yn ei le | 95% |
| Nifer o unedau gofal ychwanegol wedi eu datblygu | Gwaith ar ddwy safle | 130 - 150 |

**Amcan 4 – Ffocws ar Drigolion**

Mae sicrhau gwasanaethau effeithiol ac ymatebol yn greiddiol i rôl y Cyngor. Mae galw cynyddol gan y cyhoedd i gysylltu yn well â hwy fel dinasyddion ac i ddylunio gwasanaethau o gwmpas eu hanghenion; mae disgwyliadau cynyddol tebyg hefyd o du'r Cynulliad.

Mae'n allweddol bod y Cyngor yn gwella ei wasanaethau a mynediad iddynt gan drefnu eu hun o gwmpas anghenion trigolion ac yn cysylltu'n effeithiol â'r trigolion hynny er mwyn sicrhau hynny.

Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau bod anghenion dinasyddion y sir wrth galon popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Dros y tair mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol a nodir isod er mwyn

- Cynnig gwelliannau mewn gwasanaethau ymatebol
- Cynnal gwasanaethau o safon
- Gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg a phrosesau busnes llyfn
- Mynd i'r afael â rhai meysydd penodol lle rydym am wella perfformiad
- Sefydlu gwell trefniadau cyswllt cyntaf ar gyfer derbyn galwadau ac ymholiadau wyneb i wyneb

**Mater** – Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth, mae peryg bod y gwasanaethau yn llai perthnasol i drigolion a defnyddwyr gwasanaeth.

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd o Ansawdd (gwella'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig er budd trigolion)** | 1. Prosiect Cyd-weithio | Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda cynghorau tref a chymuned ardal Penllyn a'r Bala ynghylch cydweithio i ddarparu gwasanaethau priodol. Erbyn diwedd y flwyddyn, byddwn wedi sicrhau bod:<br>1. Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn weithredol<br>2. Trefniadau Gweinyddol yn eu lle<br>3. Cyfrifoldebau wedi eu datganoli | Byddwn wedi adolygu'r trefniadau cydweithio yn ardal Penllyn a'r Bala ac wedi datblygu model i gydweithio gyda chynghorau tref/cymuned eraill yng Ngwynedd |
| | 2. Prosiect Gorfodaeth (ar y cyd) | Byddwn wedi sefydlu Uned Gorfodaeth Stryd o'r newydd. Bydd yr Uned yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid yn y maes er mwyn:-<br>• Lleihau troseddu amgylcheddol<br>• Hybu balchder dinesig a pherchnogaeth leol | Byddwn wedi adnabod gwelliant yn safonau glanhau ein strydoedd a'n ffyrdd, ac adolygu trefniadau gwaith i fod yn fwy rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol fel ar hyn o bryd |
| | 3. Gangiau Cymunedol | Byddwn wedi adnabod anghenion ac ymestyn gwaith y Gangiau Cymunedol i gynnwys yr ardaloedd gwledig | Byddwn wedi adolygu capasiti i adnabod os oes cyfiawnhad dros ymestyn y gwasanaeth |
| | 4. Rhaglen "Blits" Canol Trefi a Phentrefi | Byddwn wedi datblygu a dechrau gweithredu rhaglen gwaith "blits" yn nghanol rhai trefi a phentrefi i dargedu ardaloedd newydd ac ail-ymweld ac eraill a datblygu trefn newydd ar gyfer rhai ardaloedd preswyl | Byddwn wedi gwella edrychiad y strydluniau perthnasol a chynddu bodlonrwydd trigolion a defnyddwyr eraill |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
| --- | --- | --- | --- |
| **Ffocws ar y Cwsmer (sicrhau mynediad rhwydd at wasanaethau a'u bod yn cael eu cyflawni ar amser ac yn cwrdd a safonau a gyhoeddir)** | 1. Canolfan Gyswllt a'r We | Byddwn wedi sefydlu Canolfan Gyswllt er mwyn sicrhau mynediad haws i wasanaethau a chysondeb yn yr ymateb i gwsmeriaid gan gyflwyno meysydd gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol a gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2008/09<br><br>Byddwn wedi newid gwefan y Cyngor i fod yn gyfrwng darparu hunan wasanaeth ar lein ar gyfer prosesau Priffyrdd a Bwrdeistrefol. | Erbyn 2010/11, bydd gwasanaethau pellach – sef Cynllunio a Thrafnidiaeth, Hamdden a Diwylliant a Threthi a Budd-daliadau yn cael eu cyflwyno o'r Ganolfan<br><br>Erbyn 2010/11 bydd modd cyflawni hunain wasanaeth ar lein ar gyfer gwasanaethau meysydd Gweimnyddol a Gwrchiod y Cyhoedd a Chynllunio a Thrafnidiaeth |
| | 2. Teilwra Gwasanaethau i'r Cwsmer | Bydd gan y Cyngor drefn safonol ar gyfer sicrhau fod dyheadau defnyddwyr yn cael eu hystyried wrth ddylunio gwasanaethau<br><br>Byddwn wedi sefydlu a chyhoeddi safonau gofal cwsmer corfforaethol y Cyngor<br><br>Byddwn wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant safonol gofal cwsmer ar gyfer y Cyngor ac wedi sicrhau fod 100 o reolwyr a goruchwilwyr wedi derbyn yr hyfforddiant hwnnw | Erbyn diwedd 2010/11 byddwn wedi newid ein trefniadau ar gyfer ymdrina  chwynion er mwyn eu defnyddio fel arf i wella gwasanaethau<br><br>Byddwn wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer ymdrin â thrigolion wyneb yn wyneb<br><br>Erbyn 2010/11 bydd 430 o reolwyr a goruchwilwyr wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Cyfranogaeth y Gymuned a Dinasyddiaeth (sicrhau fod dinasyddion yn medru dylanwadu ar y gwasanaethau a gyflwynir ac annog dinasyddiaeth)** | 1. Cysylltu â'r Gymuned | Byddwn wedi cynnal arolwg barn ymysg ein dinasyddion<br><br>Byddwn wedi sefydlu trefn safonol gorfforaethol ar gyfer sicrhau fod dinasyddion y sir yn medru dylanwadu ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud gan gychwyn gweithredu ar y drefn newydd.<br><br>Byddwn wedi llunio rhaglen ar gyfer ymestyn y cysyniad o ddinasyddiaeth ymysg pobl ifanc<br><br>Byddwn wedi arwain drwy sefydlu cynllun gwirfoddoli o fewn y Cyngor.<br><br>Byddwn wedi sefydlu Fforwm Plant a Phobl Ifanc gyda trefniadau fydd yn caniatau llais plant a phobl ifanc i mewn i'r broses democratiaeth | Erbyn 2010/11 byddwn wedi trafod gyda mudiadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus eraill sut orau i ymestyn y syniad o dinasyddiaeth o fewn y sir.<br><br>Erbyn 2010/11 byddwn wedi ymestyn ein trefniadau ymgysylltu i gynnwys cyrff cyhoeddus eraill.<br><br>Byddwn yn ymgynghori ar ddulliau eraill yr hoffai ein dinasyddion weld o roddi llais i'n cymunedau. |
| **Cludiant (symud i drefn effeithiol integredig ar gyfer cludiant yn y sir)** | 1. Ail-fodelu cludiant i wella mynediad i wasanaethau | Bydd blaenoriaethau buddsoddi mewn cludiant cymunedol yng Ngwynedd wedi eu hadnabod<br><br>Bydd ystyriaeth wedi ei roi i greu capasiti i gyd-lynu darpariaeth cludiant cymunedol os yn bosibl ar y cyd gydag awdurdodau eraill<br><br>Byddwn wedi gweithredu cynllun peilot i sefydlu model menter ar gyfer darparu cludiant ysgol ac ehangach mewn dalgylch ysgol uwchradd | Bydd cludiant cymunedol wedi ei integreiddio i ddarpariaeth cludiant ehangach o fewn Gwynedd |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Gwella Gwasanaethau Unigol (mynd i'r afael â meysydd gwasanaeth unigol lle y mae'r Cyngor am wneud newid arwyddocaol)** | 1. Rhaglen Wella Gwasanaethau Cymdeithasol | Byddwn wedi dylunio Rhaglen Wella addas a wedi dechrau cyflawni elfennau ystyrlon ohonni, gan gyflawni nifer o enillion buan arwyddocaol | Erbyn canol 2009, byddwn yn gwasanaethu y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dda a wedi trawsnewid gweithrediad y strwythur gan gynnig rhagolygon addawol ar gyfer y dyfodol<br><br>Erbyn diwedd 2010 byddwn wedi trawsnewid ansawdd y gwasanaethau i gyd, gan sicrhau deilliannau o ansawdd uchel, sy'n gwasanaethu pob defnyddiwr yn dda |
| | 2. Cynllunio Argyfwng | Byddwn wedi profi ein trefniadau Cynllunio Argyfwng drwy gynnal ymarferiad yn ystod y flwyddyn<br><br>Bydd Cynllun Parhad Gwasanaeth ar gyfer y Cyngor wedi ei fabwysiadu | Erbyn 2010/11, byddwn wedi sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil |
| | 3. Ail ddylunio Gwasanaethau Iechyd a Gofal yn y Gymuned | Byddwn wedi cyd-weithio a phartneriaid i baratoi Cynllun Gwasanaethau Cymunedol i ail-fodelu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn y sir a bydd timau ardal wedi eu sefydlu. | Byddwn wedi gwella'r rhychwant o wasanaethau iechyd a gofal yn y gymuned o fewn y cymunedau, gan symleiddio mynediad at staff gofal ac iechyd<br><br>Byddwn wedi gwella ansawdd bywyd pobl â chyflyrau tymor hwy a'r rhai sy'n gofalu amdanynt trwy wella'r gefnogaeth iddynt fedru byw bywydau annibynnol<br><br>Byddwn wedi galluogi cymunedau lleol i gysylltu â'r gwasanaethau iechyd a gofal yn eu hardal er mwyn dylanwadu ar y ddarpariaeth |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| | 4. Adolygu Gwasanaethau Ieuenctid | Byddwn wedi cynnal adolygiad llawn o Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor | Erbyn 2009/10 bydd y strwythur a gweithgareddau yn sgil yr adolygiad yn weithredol |
| | 5. Gosod Tai Cyngor | Byddwn wedi cychwyn adolygiad o drefniadau gweithredol gosod tai gan gynnwys materion wedi'i dwyn i sylw y Gweithgor Polisi Gosod Tai | Bydd trefniadau gosod tai wedi'i addasu i sicrhau trefniadau effeithiol sy'n addas i bwrpas |

| Blaenoriaethau Strategol | Beth rydym am ei wneud | Beth rydym am ei gyflawni yn 2008/09 | Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Gwella Gwasanaethau Unigol (parhad)** | 3. Gwella perfformiad o ran:- | | |
| | a) Adolygu Cynlluniau Gofal | | Llwyddo i adolygu 80% o gynlluniau gofal mewn blwyddyn |
| | b) Asesu Gofalwyr (Gwasanaethau Oedolion) | | Sicrhau bod dim mwy na 2% o'r rhai sy'n gofalu am ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn aros am asesiad |
| | c) Strategaeth Lleoli Plant mewn Gofal | Byddwn wedi cynyddu darpariaeth maethu oddi fewn i'r Sir a chynllunio i leihau costau maethu drwy asiant | |
| | | Byddwn wedi comisiynu darpariaeth breswyl newydd | Bydd darpariaeth breswyl newydd mewn adeilad addas yng Ngwynedd yn cael ei redeg gan asiantaeth wirfoddol |
| | ch) Atgyfeiriadau | Byddwn gyda chynlluniau cadarn i leihau y niferoedd o blant sydd yn cael eu hailgyfeirio i'r gwasanaeth | |
| | d) Adolygiadau amddiffyn plant | Byddwn wedi gwella perfformiad a gwybodaeth perfformiad amddiffyn plant | Multi-agency protection arrangemenst will be monitored and reported on using the RAISE system |
| | dd) Arolygu Hylendid Bwyd busnesau | Yn amodol ar i'r Asiantaeth Safonau Bwyd barhau i ddefnyddio'r mesur, byddwn yn cynyddu'r canran o fusnesau risg uchel a adolygwyd i 85% | Ar yr un amod, byddwn yn cynyddu'r canran o fusnesau risg uchel a adolygwyd i 95% erbyn diwedd 2009/10 |
| | e) Cyflogaeth Gweithwyr Anabl | Byddwn yn cynnal arolwg i sicrhau fod gennym waelodlin cywir ar gyfer y nifer o weithwyr anabl | Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn cyrraedd o leiaf yr ail chwartil yng Nghymru |

**Dangosyddion** –

| **Dangosydd** | **Targed 2008/09** | **Targed 2010/11** |
|---|---|---|
| Canran y galwadau ffôn sy'n cael eu hateb o fewn 15 eiliad | 80% | 84% |
| Canran y llythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith | 79% | 80% |
| Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 94% | 94% |
| Canran y cyfeiriadau sydd yn cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis | 25% | |
| Nifer o reolwyr a goruchwilwyr wedi derbyn hyfforddiant gofal cwsmer | 100 | 430 |
| Canran y busnesau risg uchel sydd wedi cael adolygiad hylendid bwyd | 85% | 95% |

## Cynllun Tair Mlynedd – Rhan B - Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

1. Mae Cynllun Tair Blynedd y Cyngor yn nodi'r amcanion strategol y mae'r Cyngor yn dymuno eu gweithredu dros y tair blynedd nesaf er mwyn gwireddu'r 4 amcan sydd yn y cynllun.

2. Fodd bynnag, ni all y Cyngor wahanu ei weledigaeth ar gyfer trigolion Gwynedd oddi wrth yr adnoddau sydd ar gael iddo.

3. Bwriad y ddogfen yma yw nodi'r cyd destun ariannol ar gyfer y tair blynedd nesaf a sut y mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y cynllun yn cydblethu gyda'r cyd-destun hwnnw.

4. Daw 80% or arian sydd ar gael i'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o Lywodraeth y Cynulliad drwy'r Grant Cynnal Refeniw tra daw'r gweddill, sef 20% gan drethdalwyr y Cyngor.

5. Mae angen cydnabod hefyd tra bod y Cyngor yn dymuno ymgymeryd a phrosiectau penodol sylweddol fydd yn fanteisiol i drigolion Gwynedd, mae'n rhaid iddo hefyd sicrhau fod llu o wasanaethau eraill lle mae amryw o unigolion yn dibynnu arnynt yn parhau i gael eu darparu.

### Cyllideb 2007/8

6. Cyllideb 2007/08 yw'r gwaelodlin ar gyfer y cynllun tair blynedd.

7. Yn 2007/8, £341.8m oedd cyllideb refeniw y Cyngor.

8. Daeth taliadau a ffioedd am wasanaethau a £78m i goffrau'r Cyngor (mae yna nifer o enghreifftiau ohonynt), a daeth £61.5m pellach drwy grantiau a chyfraniadau o Lywodraeth y Cynulliad a gan asiantaethau ac adrannau llywodraeth canolog eraill i gynorthwyo gyda gwasanaethau penodol, gan adael £202.3m i'w gyllido o'r Grant Cynnal Refeniw a gan trethdalwyr y Cyngor.

### Gofynion Cyllidol ar gyfer y dyfodol

9. Os mai dim ond parhau i ddarparu ei wasanaethau ar eu lefelau presennol fyddai uchelgais y Cyngor, byddai chwyddiant yn unig yn cynyddu cost darparu'r gwasanaethau yma dros y cyfnod penodedig o 3 blynedd. Mae profiadau'r gorffennol yn awgrymu fod chwyddiant yn unig (yn cynnwys costau cyflogi megis cynnydd mewn hicynau cyflog a chostau pensiwn) wedi arwain at gynnydd rhwng 3.75% a 4.5%.

10. At bwrpas y cynllun tair blynedd, gellir gwneud tybiaethau lawer ynglyn â gofynion chwyddiant, ond fel amcangyfrif gorau, 'rydym wedi cynnwys tybiaeth o gynnydd o 3.33% yn 2008/9 gyda chynnydd pellach o 3.2% yn 2009/10 a 2010/11. Mae hyn yn is na'r blynyddoedd a fu oherwydd na ydym yn rhagweld cymaint o gynnydd yng nghostau pensiwn dros y cyfnod ag y gwelwyd yn y gorffennol.

11. Yn ychwanegol, fe fydd ffactorau demograffig yn effeithio ar gyllideb y Cyngor am y cyfnod dan sylw. Rhagwelir erbyn diwedd blwyddyn 3, y bydd lleihad yn y nifer o ddisgyblion yn golygu gofyn cyllidebol £1.3m yn llai na ddarperir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn medru darparu ychydig o warchodaeth a sefydlogrwydd i ysgolion y sir, dim ond hanner y swm yma y bwriedir ei dynnu o gyllidebau ysgolion gan adael i'r ysgolion gadw'r hanner arall.

12. Ffactor ddemograffig bwysig arall yw'r cynnydd disgwyliedig yn y nifer o bobl dros 65 sydd yn debygol o gynyddu'r angen am wasanaethau gofal. Rhagwelir y bydd hyn yn ychwanegu pwysau cyllidebol cyfwerth â thua £0.9m dros y cyfnod 3 blynedd.

13. Yn unol ag agwedd darbodus y Cyngor tuag at reolaeth ariannol, rhoddwyd reserfau a darpariaethau o'r neilltu ar gyfer cwrdd â'r ymrwymiadau a digwyddiadau hynny y gellir eu rhagweld, ac mae'r symiau a gedwir yn y reserfau yma yn ynghyd â balansau cyffredinol y Cyngor yn ennill llog y gellir ei ddefnyddio yn y tymor canolig i gefnogi cynlluniau gwariant y Cyngor. Drwy hyn felly bydd lefel y llog ar falansau yn cynyddu £1.1m yn 2008/9 gyda £0.5m yn cael ei ddefnyddio i ariannu materion unwaith ac am byth gan ein bod yn darogan y gallasai'r £1.1m ostwng i £0.6m erbyn diwedd y cyfnod 3 blynedd.

14. Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor hefyd wedi benthyca er mwyn buddsoddi mewn asedau i ddarparu gwasanaethau. Ar ddiwedd blwyddyn gyllidol 2007/8, 'roedd gan y Cyngor fenthyciadau o ychydig dros £149m yn ddyledus. £13.46m yw'r ddarpariaeth yng nghyllideb 2007/8 ar gyfer gwasanaethu'r ddyled yma**.** Dros gyfnod 3 blynedd y cynllun rhagwelir y bydd y symiau gedwir ar un ochr i ad-dalu dyledion ynghyd â symiau y bydd y Cyngor yn ei fenthyca yn lled niwtral erbyn diwedd y drydedd flwyddyn.

15. Y prif fater allasai ddylanwadu ar hyn fodd bynnag yw Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

16. Mae'r cynllun drafft presennol wedi adnabod y byddai angen buddsoddiad cyfalaf o £208m dros y 10 mlynedd nesaf i barhau a datblygu sylfaen asedau'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau ond fod yr adnoddau sydd ar gael am fod yn agosach at £144m – diffyg o £64m.

17. Mae Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol y Cyngor ar hyn o bryd yn ymchwilio i sut y gellir pontio'r diffyg yma a bydd yr ateb terfynol yn debygol o gynnwys cymysgedd o leihau y gofynion, gwaredu asedau a defnyddio pwerau benthyca darbodus y Cyngor i ychwanegu at y cyllid fydd ar gael. Fodd bynnag golyga yr opsiwn olaf y byddai'n rhaid i'r Cyngor ddarganfod yr arian er mwyn ariannu benthyciad o'r fath.

18. Mae'r cynllun ariannol tair blynedd yn cynnwys darpariaeth refeniw o £1m yn y flwyddyn gyntaf ynghyd a £0.5m yn yr ail a'r trydydd flwyddyn i gyllido benthyciadau darbodus o tua £22m er mwyn cynorthwyo gyda'r diffyg. Fe gyllidir unrhyw anghenion pellach o'r ddarpariaeth cyffredinol a roddwyd ar un ochr ar gyfer pwysau ychwanegol (gweler paragraff 29 isod).

19. Nodir rhaglen gyfalaf y Cyngor am y tair blynedd nesaf yn Atodiad 1. Bydd yr ystyriaeth a roddir gan y Cyngor i'w gynllun rheoli asedau yn sicr o gael effaith ar y rhaglen yma.

20. Mae yna ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar gyllidebau dros y tair blynedd nesaf megis trefniadau delio â gwastraff; cynnydd yn nisgwyliadau lefel y gwasanaeth a roddir ym meysydd gwasanaethau plant a gofal cymunedol ond lle na ellir mantoli'r gofynion ariannol gydag unrhyw bendantrwydd. Denygs profiad y 5 mlynedd diwethaf nad yw pob mater o'r fath o reidrwydd yn swm mawr ynddo'i hun, ond gyda'i gilydd gallasent olygu cryn symiau.

21. Mae yna bosibilrwydd cryf y bydd y bleidlais yn ymwneud ag allanoli tai cyngor yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor i'r graddau y bydd yna rai costau sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyfraniad gan y Cyfrif Refeniw Tai fydd wedyn yn syrthio ar gyllideb y Cyngor. Gwnaed darpariaeth o £0.5m ar gyfer hyn o 2010/11 ymlaen.

**Grant Cynnal Refeniw**

22. Yn 2007/8, am y tro cyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad lefel y Grant Cynnal Refeniw arfaethedig i lywodraeth leol am y 3 blynedd 2008/9, 2009/10 a 2010/11.

23. Dros y cyfnod o dair blynedd i 2010/11, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi ar gyfer Cyngor Gwynedd y bydd y ffigwr yma y cynyddu i £163.32m yn 2008/9; £166.3m yn 2009/10 a £171.02m yn 2010/11 – cynnydd o 2%, 1.8% a 2.8% neu 6.82% dros y cyfnod.

24. Mae hyn 1.52% yn is na chyfartaledd Cymru ac mae'n cynrychioli y 7fed cynnydd isaf yng Nghymru dros y cyfnod.

**Y Cynllun Ariannol Tair Blynedd**

25. Mae'r Cynllun tair blynedd yn cynrychioli ymateb y Cyngor i'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu yn yr amgylchedd gyfnewidiol sydd ohoni, risgiau allai gael effaith sylweddol pe na byddai'r Cyngor yn ymateb iddynt.

26. Mae'r Cyngor wedi penderfynu ar y rhaglen uchelgeisiol yma ar adeg pan nad yw'r argoelion ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru yn addawol iawn.

27. Gellir cwestiynu felly ai nawr yw'r amser i gychwyn ar raglen os yw adnoddau yn debygol o fod yn gyfyngedig, ond hyd yn oed ar adegau o'r fath, mae'n rhaid i ni edrych am y ffordd orau i ddefnyddio adnoddau i wireddu'r blaenoriaethau lleol yr ydym yn ystyried sy'n angenrheidiol os ydym am ddarparu'r gwasanethau gorau posib i'n trigolion. Byddai peido â gwneud hynny yn medru arwain at gost uwch i'n cymunedau yn y tymor hirach.

28. Rhagwelir y gellir cynnal y mwyafrif o'r gweithrediadau a nodir yn y cynllun o fewn yr adnoddau presennol ond mae asesiad cychwynnol o'r gofynion cyllidol yn awgrymu y bydd angen ychwanegu £0.3m at gyllidebau presennol er mwyn medru gwireddu'r blaenoriaethau o fewn y cynllun. Gwnaed darpariaeth o'r swm yma ym mlwyddyn gyntaf y cynllun.

29. Wrth i gynlluniau ddatblygu mae'n bosibl i oblygiadau cyllidol pellach ddod i'r wyneb ond fe fydd rhain yn cael eu cyfarfod o'r ddarpariaeth ar gyfer pwysau ychwanegol o £2m fydd yn cael ei ymgorffori ym mhob blwyddyn y cynllun.

30. Gellir crynhoi gofynion cyllidol y Cyngor am y tair blynedd fel a ganlyn felly -

| **£m** | **2008/9** | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb sylfaenol am y flwyddyn flaenorol | 200.54 | 209.88 | 219.65 |
| Chwyddiant | 6.67 | 6.74 | 6.84 |
| Demograffeg | 0.09 | 0.07 | 0.08 |
| Gwasanaethu benthyciadau'r Cyngor | 0.29 | 0.16 | (0.21) |
| Llog ar falansau | (1.10) | 0.30 | 0.10 |
| **Cyfanswm sydd ei angen** | **206.49** | **217.15** | **226.46** |
| Grant Cynnal Refeniw | (163.32) | (166.31) | (171.02) |
| Treth Gyngor ar lefel 2007/8 | (41.47) | (41.47) | (41.47) |
| **Diffyg ar y gyllideb sylfaenol** | 1.7 | 9.37 | 13.97 |
| Cynllun Rheoli Asedau | 1.0 | 0.5 | 0.5 |
| Cynllun Tair Blynedd | 0.3 | - | - |
| Allanoli Tai Cyngor | - | - | 0.5 |
| Pwysau Cyllidebol | 2.09 | 2.00 | 2.00 |
| **Diffyg a ragwelir** | 5.09 | 11.87 | 16.97 |

31. O'r uchod, gellir gweld hyd yn oed heb y pwysau cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei wynebu byddwn mewn sefyllfa o ddiffyg am y tair blynedd.

32. O ychwanegu'r pwysau cyllidebol ar wasanaethau ynghyd â'r gofynion cyllidol i ddarparu'r blaenoriaethau strategol amlinellwyd yn y cynllun yma, rhagwelwn y bydd angen darganfod cyfanswm o bron i £17m dros y tair blynedd.

**Camau i ddarganfod y diffyg**

33. Dim ond pedair fordd sydd ar gael i'r Cyngor lenwi'r bwlch yma –

- Cynyddu'r Dreth Gyngor;
- Cynhyrchu mwy o incwm drwy gynyddu costau am wasanaethau;
- Rhyddhau arian drwy leihau costau darparu gwasanaethau drwy ddarganfod arbedion effeithlonrwydd;
- Rhyddhau arian drwy leihau neu atal yn gyfangwbl gwasanaethau a nodir sy'n flaenoriaeth is.

34. **Cynyddu'r Dreth Gyngor** – Tra fod hyn yn ymddangos yn ffordd amlwg o lenwi'r bwlch, cyfyngir ar ei ddefnydd yn ymarferol gan gyfrifoldeb y Cyngor i sicrhau fod y trethdalwr yn cael ei warchod rhag cynnydd afresymol a gallu Llywodreth y Cynulliad i gapio cynnydd afresymol. Ystyrir oherwydd yr uchod mai tua 5% yw'r cynnydd mwyaf posibl y gellir ei ystyried mewn unrhyw flwyddyn sydd yn cyfateb i tua 1% o gyllideb net y Cyngor.

35. **Cynyddu Costau am Wasanaethau** – Mae gan y Cyngor hawl i godi am rai gwasanaethau (ond nid am wasanaethau eraill) ac ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hynny lle caniateir codi amdanynt, gosodir lefel y tâl yn genedlaethol. Cymerwyd y byddai ffioedd o'r fath yn cael eu cynyddu o lefel chwyddiant i ystyriaeth yn y ffigwr chwyddiant ac felly er mwyn cynhyrchu incwm uwch byddai'n rhaid i ffioedd gynyddu yn uwch na chwyddiant. Gall camau o'r fath fod yn amhoblogaidd dros ben.

36. **Darganfod arbedion effeithlonrwydd** – dros y 3 blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi darganfod £11.6m mewn arbedion effeithlonrwydd drwy ddarganfod ffyrdd o gynnig yr un gwasanaethau am gost is. Oherwydd eu natur, mae darganfod arbedion o'r fath yn mynd yn anoddach fel y mae amser yn mynd yn ei flaen (gan fod y targedau hawdd wedi cael eu gweithredu) ac mae'r camau sydd eu hangen i ddarganfod yr arebdion yma yn fwy radical.

37. **Lleihau gwasanaethau a ystyrir eu bod yn flaenoriaethau is** – o'r holl weithrediadau mae'n debyg mai dyma'r un anoddaf yn nhermau y cymunedau rydym yn eu gwasanaethau. Yn ystod 2007/08 sefydlodd y Cyngor weithgorau i ddadansoddi'r holl weithgareddau mae'r Cyngor ymgymeryd a hwy a blaenoriaethwyd y gweithgareddau yma i 3 categori. Y bwriad oedd y byddai'r ddau flaenoriaeth is yn darparu targedau ar gyfer arbedion pan fyddai eeu hangen. Fodd bynnag mae hyd yn oed y categori isaf un yn creu gwrthwynebiad gan eu bod yn effeithio ar garfan o'n cymdeithas.

38. O gydnabod fod angen i'r Cyngor ddarganfod balans rhwng y gofynion am wasanaethau yn erbyn ei gyfrifoldeb i'r trethdalwr, mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu polisi trethiant sy'n nodi y bydd yn anelu i gyfyngu unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor dros y 4 blynedd nesaf i fand sy'n gyfatebol i gynnydd o -1% i +1% y flwyddyn o'r cyfartaledd yng Nghymru.

39. Dros y 4 blynedd diwethaf, 4.4% y flwyddyn oedd y cyfartaledd yng Nghymru. Yn wyneb y setliadau grant hanesyddol isel a roddwyd i lywodraeth leol yng Nghymru am y tair blynedd nesaf y bydd y cyfartaledd am y tair blynedd nesaf yn debygol o fod yn debyg os nad yn uwch, ond ar gyfer pwrpas cynllunio rydym wedi rhagdybio cynnydd Treth Gyngor o 4%.

40. Mae hyn yn gadael y diffyg a nodir isod.

| £m | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| Gofyn cyllidebol | 209.88 | 219.65 | 229.46 |
| ***Llai*** Grant y LLywodraeth | 163.32 | 166.31 | 171.02 |
| ***Llai*** Treth Gyngor | 43.04 | 44.76 | 46.56 |
| **Diffyg** | 3.52 | 8.58 | 11.88 |

41. Felly, mae'r Cyngor wedi gofyn i bob gwasnaeth gynllunio i gyrraedd £3.5m o arbedion yn 2008/9 drwy gyfuniad o gynyddu incwm o ffioedd a chostau; darganfod arbedion effeithlonrwydd; neu leihau gwasanaethau yn unol â tharged unigol a roddwyd iddynt yn seiliedig ar asesiad o'r arbedion y dylid disgwyl ganddynt ar cymhariaeth o wariant cymharol; blaenoriaeth y gwasanaeth o ran polisi; a sgôp y gwasanaeth i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd.

42. Rhoddwyd cyfarwyddyd hefyd i gynllunio am £4m ychwanegol yn 2009/10 a £4m yn 2010/11.

**Risgiau**

43. Seiliwyd y cynllun ariannol tair blynedd ar nifer o dybiaethau lle gall unrhyw un amrywio o fewn amrediad gyda lefel yr amrediad yn cynyddu y pellaf y byddwn yn teithio o'r presennol.

44. Tra bod y tybiaethau am 2008/9 bron yn bendant, gan eu bod bellach yn sylfaen i gyllideb y Cyngor am y flwyddyn, hyd yn oed yma gwelwyd cynnydd sylweddol ym mhrisiau olew a thra bod y cynllun yn cymeryd y gost uniongyrchol i ystyriaeth, mae'n anodd amgyffred beth fydd y gost anunionygyrchol ar nwyddau eraill.**.**

45. Seilir y ffigyrau Grant Llywodraeth y Cynulliad ar y ffigyrau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ond mae'r ffigyrau ar gyfer yr ail flwyddyn yn debygol o newid gyda newid yn y ffigyrau poblogaeth sy'n gyrru'r fformiwla dyranu adnoddau i lywodraeth leol. Mae'r tafluniadau hefyd yn rhagdybio na fydd gofyn i'r Cyngor ariannu unrhyw swyddogaethau newydd o'r grant a nodir.

46. Gall bwysau ar wasanaethau godi yn unrhyw le ac mae yna risg na fydd y £2m a ddarparwyd yn y cynllun hwn ar eu cyfer yn ddigonol.

47. Os bydd unrhyw un o'r risgiau uchod yn golygu na fydd yr arbedion a nodwyd yn ddigonol i sicrhau cyllideb cytbwys bydd angen addasu maint yr arbedion ar gyfer y flwyddyn ganlynol gan ddibynu ar falansau i bontio'r cyfnod.

**Atodiad 1**

**Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2008/9 -2010/11**

| | 2008/9 £m | 2009/10 £m | 2010/11 £m |
|---|---|---|---|
| **Ysgolion** | | | |
| Trefniadaeth Ysgolion | 0.50 | 0.50 | 5.30 |
| Diogelwch Traffig o fewn a thu allan i ysgolion | 0.35 | | |
| | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | | | |
| Adleoli Cartref Bontnewydd | 0.25 | 0.30 | |
| | | | |
| **Gwasnaethau Cymdeithasol** | | | |
| Gwelliannau i Gartrefi Preswyl | 0.05 | | |
| | | | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | |
| Rheoli Gwastraff | 2.28 | 1.49 | |
| Adnewyddu cyfleusterau bwrdeistrefol | 0.07 | 0.04 | 0.05 |
| Atal LLifogydd | 0.92 | | |
| Adnewyddu cyfleusterau priffyrdd | 0.13 | | |
| | | | |
| **Cynllunio a Thrafnidiaeth** | | | |
| Pontydd a Waliau | 0.25 | | |
| Lleihau damweiniau | 0.10 | | |
| Dichonoldeb a Dylunio | 0.20 | | |
| | | | |
| **Tai** | | | |
| Grantiau Adnewyddu | 3.00 | 1.50 | |
| | | | |
| **Datblygu'r Economi ac Adfywio** | | | |
| Arian cyfatebol Cronfa Cydgyfeiriant | 0.25 | 0.25 | |
| Cefnogaeth i'r sector wirfoddol a chymunedol | 0.14 | 0.14 | |
| | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | |
| Canolfan Ddarganfod Bangor | - | 0.50 | - |
| | | | |
| **Adeiladau'r Cyngor** | | | |
| Ol groniad cynnal a chadw | 1.50 | 2.00 | 2.00 |
| Archwiliadau Tan ac Asbestos | 0.25 | 0.40 | 0.40 |
| Dichonoldeb a Dylunio rhagarweiniol | 0.04 | | |
| | | | |
| **Cerbydau ac Offer** | | | |
| Adnewyddu Cerbydau | 0.39 | 0.30 | 0.20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 0.51 | | |
| Diogelu Ystafell Technoleg Gwybodaeth | 0.18 | | |
| | | | |
| I'w ddyranu yn ôl gofynion y Cynllun Rheoli Asedau Terfynol | - | 6.59 | 3.94 |
| **Cyfanswm** | **11.37** | **14.01** | **11.89** |

**Atodiad 2**

## Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol

| Cyf | Dangosydd | Targed 08/09 | Canlyniad interim 08/09 |
|---|---|---|---|
| SCA/001 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. | | |
| SCA/002 | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd):<br>a) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd<br>b) Sy'n derbyn cymorth gan yr awdurdod lleol mewn cartrefi gofal, fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n 65 oed a throsodd | | |
| SCC/001 | a) Canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu lleoli am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn gyda chynllun gofal mewn lle<br>b) Ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu hail adolygiad (ar ôl 4 mis) yn ystod y flwyddyn, y canran ohonynt oedd â chynllun ar gyfer trefniadau sefydlog ar y dyddiad perthnasol | | |
| SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu'n fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, am resymau ar wahân i drefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | | |
| HHA/001 | a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety Gwely a Brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfwng<br>b) Nifer cyfartalog y diwrnodau y mae'r holl breswylwyr digartref yn eu treulio mewn llety dros dro | | |
| HHA/002 | Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd rhwng cyflwyniad cais ddigartrefedd a rhyddhad o ddyletswydd ar gyfer preswylwyr sy'n ddigartref yn ôl diffiniad y gyfraith | | |
| PSR/001 | Canran yr anheddau anaddas yn y sector preifat a gafodd eu gwneud yn addas, eu cau neu eu dymchwel yn dilyn camau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | | |
| SPP/001 | Nifer cyfartalog yr unedau cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai, fesul 1,000 o'r boblogaeth, ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o wasanaeth cefnogi sy'n gysylltiedig â thai:<br>i) Cefnogaeth nofiol<br>ii) Mynediad uniongyrchol<br>iii) Llety dros dro<br>iv) Llety parhaol<br>v) Llety gwarchod ar gyfer pobl hŷn<br>iv) Gwasanaethau larwm cymunedol | | |
| EDU/001 | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | | |
| EDU/002 | a) Nifer o, a b) chanran:<br>i) Yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai dan ofal yr awdurdod lleol), a<br>ii) Disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol,<br>mewn unrhyw sefydliad dysgu wedi ei gynnal gan yr awdurdod lleol sy'n troi'n 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ac yn gadael addysg, hyfforddiant amser llawn neu'n dysgu tra'n gweithio heb gymhwyster allanol cymeradwy | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU/003 | Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl yr Asesiad Athro | | | | |
| EDU/004 | Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni Dangosydd y Pwnc Craidd yn ôl Asesiad Athrawon | | | | |
| EDU/011 | Nifer cyfartalog y pwyntiau am gymwysterau allanol y mae disgyblion 16 oed yn eu hennill mewn sefydliadau dysgu wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol | | | | |
| EDU/006 | a) Nifer o, a b) chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu, mewn ysgolion wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf):<br>i) Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2<br>ii) Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | | | | |
| WMT/001 | Cyfanswm y tunelli a b) canran y gwastraff trefol:<br>i) A ailddefnyddir ac/neu a ailgylchir; ac<br>ii) A gaiff ei gompostio neu ei drin mewn modd biolegol arall | | | | |
| WMT/002 | Cyfanswm y tunelli ac b) y canran o wastraff trefol bioddiraddadwy wedi eu hanfon at dirlenwi | | | | |
| THS/010 | Cyflwr:<br>a) Prif ffyrdd (A)<br>b) Ffyrdd dosbarthiadol/ffyrdd llai | | | | |
| PPN/001 | a) Nifer y busnesau risg uchel sy'n agored i arolygiad rhaglennol neu weithgaredd amgen gorfodol yn ystod y flwyddyn; a<br>b) Canran y busnesau risg uchel hyn a oedd yn agored i arolygiad rhaglennol neu Weithgaredd Amgen Gorfodol a gafodd eu harolygu/destun gweithgaredd amgen gorfodol ar gyfer:<br>i) Safonau Masnach<br>ii) Hylendid Bwyd<br>iii) Iechyd Anifeiliaid<br>iv) Iechyd a Diogelwch | | | | |
| EEF/001 | a) Y newid yng nghanran yr allyriannau carbon deuocsid gan y stoc gyhoeddus annomestig.<br>b) Y newid yng nghanran y defnydd o ynni ac allyriadau carbon deuocsid yn y stoc dai | | | | |
| BNF/001 | Diogelwch Budd-dal Tai:<br>a) Nifer yr hawlwyr a chafodd ymweliad, fesul 1,000 o achosion<br>b) Nifer yr archwilwyr twyll wedi'u cyflogi fesul 1,000 o achosion<br>c) Nifer yr archwiliadau twyll fesul 1,000 o achosion<br>d) Nifer yr erlyniadau a'r cosbau fesul 1,000 o achosion | | | | |
| BNF/002 | Cyflymder prosesu:<br>a) Amser cyfartalog o brosesu hawliau newydd<br>b) Amser cyfartalog o brosesu newid mewn amgylchiadau | | | | |
| BNF/003 | Cywirdeb prosesu:<br>a) Canran yr achosion yr oedd cyfrifiad swm y budd-dal oedd yn ddyledus yn gywir yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael i wneud y penderfyniad ar gyfer sampl o achosion a chafodd eu gwirio ar ôl gwneud penderfyniad<br>b) Canran y gordaliadau Budd-dal Tai wedi'u hadfer | | | | |